

Gwersyll yr Urdd, Llangrannog  
2 x Swydd Barhaol

£15,015 - £15,695 heb gymhwyster  
£15,238 - £17,151 gyda chymwysterau

Mae angen unigolion egniol a brwdfrydig i weithio fel rhan o'r tîm gweithgareddau. Byddwch yn gyfrifol am rediad esmwyth y rhaglenni gweithgareddau gwersyll a defnydd cyhoeddus . Bydd angen i chi sicrhau bod y gweithgareddau a'r offer yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig a bod y gwersyllwyr ar gwsmeriaid cyhoeddus yn mwynhau eu hunain mewn amgylchedd diogel. Mae profiad a chymwysterau yn ymwneud â chwaraeon, hamdden, dringo a merlota yn fanteisiol ond cynigir hyfforddiant.

Am sgwrs anffurfiol a manylion pellach cysylltwch ag Iestyn Evans ar 01239 652140 neu [lestyn@urdd.org](mailto:lestyn@urdd.org)

Dyddiad Cau: Dydd Gwener 27 Hydref 2017



## Urdd Gobaith Cymru Disgrifiad Swydd

- Teitl y swydd:** **STAFF GWEITHGAREDDAU**
- Yn atebol i:** Rheolwr Gofal Cwsmer y Gwersyll a thrwyddo ef i Gyfarwyddwr y Gwersyll.
- Cyflog:** Ar raddfa 2/3 Strwythur Cyflog yr Urdd  
Graddfa 2 £15,015 hyd £15,695 heb gymhwyster  
Graddfa 3 £15,238 hyd £17,151 gyda chymwysterau  
Penodir ar bwynt 1 oni bai fod profiad/cymwysterau arbennig yn denu un pwynt ychwanegol.
- Oriau gwaith:**
- 35 awr yr wythnos
  - Golyga dyletswyddau'r swydd hon y bydd rhaid gweithio bob yn ail benwythnos ac ar Wyliau'r Banc. Bydd hawl i 2 ddiwrnod i ffwrdd yn ystod yr wythnos ar ôl gweithio penwythnos a 2 ddiwrnod "in lieu" am weithio Gŵyl y Banc.
  - Oriau gwaith arferol: 9a.m.-5p.m.
  - Bydd shiftt 2p.m.-10p.m. pob tua 6 wythnos.
- Bydd rhaid gweithio tu allan i'r oriau hyn o bryd i'w gilydd.
- Lleoliad:** Gwersyll yr Urdd, Llangrannog
- Gwyliau blyneddol:** Caniateir 25 niwrnod o wyliau blyneddol (pro rata) ac wyth niwrnod wyliau cyhoeddus - y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Gofal Cwsmer. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. Bydd angen neilltuo 4 diwrnod ar gyfer y cyfnod rhwng y Nadolig a'r flwyddyn newydd.
- Cyfnod prawf:** Bydd cyfnod prawf o 6 mis.
- Pensiwn:** Bydd cyfle i ymuno â phensiwn mewnol yr Urdd ar unwaith.
- Gwiriad CRB:** Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (DBS.)
- Archwiliad meddygol:** Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.
- Byddwch yn gyfrifol yn uniongyrchol am y staff canlynol:** Staff achlysurol/dan hyfforddiant o bryd i'w gilydd

**Byddwch yn gyfrifol yn uniongyrchol am y gwirfoddolwyr canlynol:**  
Gwirfoddolwyr sy'n hebrwng plant wrth wneud gweithgareddau (athrawon a arweinyddion grŵp)

### **Diben y swydd**

Darparu gwasanaeth cyflawn a phroffesiynol fel y gall y cwsmeriaid fwynhau amrediad eang o weithgareddau diogel, cyffrous sy'n cynnig cyfleoedd a phrofiad dwyieithog, cymdeithasol ac addysgiadol i plant a phobl ifanc. I chwarae rhan arwyddocaol yn gweithrediad a datblygiad y gweithgareddau a rhediad esmwyth y gwersyll.

### **Prif Ddyletswyddau**

- Cyflwyno, arwain a hyfforddi gweithgareddau gwersyll trwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg ac yn ddwyieithog.
- Sicrhau bod y preswylwyr yn mwynhau eu hunain mewn amgylchedd diogel ac fod pwyntiau addysgiadol y gweithgareddau yn cael eu cyflawni
- Gweithredu bob amser mewn ffordd sy'n hyrwyddo polisi gofal cwsmeriaid y gwersyll
- Dilyn côd ac ymarfer gwaith llym y Gwersyll ar gyfer y gweithgareddau
- Sicrhau bod y gweithgareddau a'r offer yn cyrraedd y safonau angenrheidiol, disgwyledig, ac eu bod yn barod ac ar gael pan fo angen.
- Sicrhau bod y cyfarwyddyd a roir yn cyrraedd safonau uchel disgwyledig y Gwersyll.
- Cydymffurfio â rheolau lechyd a Diogelwch a bod yn ymwybodol o'r peryglon sy'n deillio o'r gweithgareddau
- Sicrhau bod yr holl waith papur perthnasol h.y. cofnodion damweiniau, archwiliadau (dyddiol wythnosol a misol), cofnodion cynnal a chadw'r gweithgareddau'n cael eu llenwi a'u cadw'n gyfredol
- Cadw mannau lle y gwneir gweithgareddau mewn trefn ac yn ddiogel
- Cynghori'r rheolwr llinell ynghylch unrhyw awgrymiadau ar y ffordd y gellir gwella'r gweithgareddau a cynorthwyo yn eu datblygiad
- Cynorthwyo fel bo angen yn rhediad y Gwersyll yn gyffredinol
- Cyflwyno, arwain a sicrhau rhediad esmwyth i'r rhaglen gweithgareddau nos i'r gwersyllwyr ar cyhoedd sy'n ymweld pan ar ddyletswydd hwyr
- Yn gyfrifol am y grwpiau sydd yn y gwersyll pan ar ddyletswydd hwyr (mewn cydweithrediad ar rheolwr sydd ar alwad i'r gwersyll)

### **Cyffredinol**

- Ymgymryd â dyletswyddau priodol eraill sy'n cyfrannu at rediad esmwyth y Gwersyll a'r gweithgareddau

## Sgiliau a Cymwysterau

| Hanfodol                                                                                 | Dymunol *                                                                                                                                             |
|------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Y gallu i cyfathrebu, dysgu a hyfforddi yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg)               | Cymhwyster Achub Bywyd * (Pool Attendant /Lifeguard)                                                                                                  |
| Profiad ar gallu i arwain, hyfforddi, cyfathrebu a ysgogi plant, phobl ifanc ac oedolion | Cymhwyster Cymorth Cyntaf *                                                                                                                           |
| Profiad ar gallu i weithio gyda plant a phobl ifanc sydd a anghenion arbennig            | Profiad o weithio a cymhwyster hyfforddi gyda Cheffylau                                                                                               |
| Unigolion egnïol, brwdfrydig a threfnus                                                  | Cymhwyster EASI Goruchwylydd Lefel 1 Beiciau Modur *                                                                                                  |
| Profiad a diddordeb mewn gweithgareddau chwaraeon, hamdden ar awyr agored                | Cymhwyster Hyfforddi Dringo <ul style="list-style-type: none"> <li>• ERCA *</li> <li>• Single Pitch Award</li> <li>• Indoor Climbing Award</li> </ul> |
| Parodrwydd i weithio yn unigol ac fel rhan o dîm                                         | Cymhwyster Hyfforddi Saethyddiaeth *                                                                                                                  |
| Hyblygrwydd a parodrwydd i weithio oriau anghymdeithasol                                 | Cymhwyster Hyfforddwr Chwaraeon yn y Gymuned                                                                                                          |
| Sgiliau cyflwyno ardderchog                                                              | Cymhwyster hyfforddi chwaraeon eraill                                                                                                                 |
| Trwydded gyrru car                                                                       | Cymwysterau hyfforddi awyr agored                                                                                                                     |
| Y gallu i arwain a cyflwyno gweithgareddau (sy'n cynnwys twmpath) grwpiau o 5 i 300      | Gradd neu cymhwyster uwch perthnasol                                                                                                                  |
| Y gallu i ddatblygu gweithgareddau                                                       | Trwydded gyrru Bws Mini (D1 neu tebyg)                                                                                                                |
| Y gallu i ddelio gyda ymddygiad heriol pan fo angen                                      | Profiad o weithio mewn canolfan chwaraeon a hamdden neu/a awyr agored                                                                                 |
| Ymwybyddiaeth a agwedd cyfrifol tuag at lechyd a Diogelwch                               | Gwybodus am Wersyll Llangrannog ar Urdd                                                                                                               |

\* Er nad yn hanfodol wrth ceisio am y swydd, fydd disgwyl gwneud hyfforddiant mewn swydd i ennill y cymwysterau gan eu bod yn hanfodol i gyflawni'r swydd yn effeithiol

Dylai unrhyw geisiadau ddangos yn glir sut mae unrhyw brofiad blaenorol, a sgiliau, yn cyfateb i'r anghenion a'r dyletswyddau a nodir yn y disgrifiad swydd.

Os am sgwrs anffurfiol, cysylltwch ag Iestyn Evans, Rheolwr Gofal Cwsmer, Gwersyll Llangrannog ar 01239 652140

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd, **Dydd Gwener 27 Hydref 2017**

Dylai ffurflenni cais wedi eu cwblhau cael eu dychwelyd at:

Preifat a Chyfrinachol  
Iestyn Evans  
Gwersyll yr Urdd  
Llangrannog  
Llandysul  
Ceredigion  
SA44 6AE

neu e-bostiwch [iestyn@urdd.org](mailto:iestyn@urdd.org)